

Adrodd a Chymorth

Sut mae adrodd yn gweithio a sut byddwn ni'n eich cefnogi

Pan fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth Adrodd a Chymorth i roi gwybod i ni am rywbeth sydd wedi digwydd, dyma sut y byddwn ni'n eich cefnogi chi:

Partïon allanol yn cyfeirio mewn / rhiant / teulu

Gall atgyfeiriadau gael eu derbyn gan asiantaethau allanol, teulu, ffrindiau, neu drydydd partïon eraill sy'n pryderu ynghylch myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd

Anogir cydsyniad y myfyriwr lle bo'n bosibl; os na chafwyd ef, dylid rhoi rhesymau

Lle bo'n briodol, bydd y myfyriwr yn cael gwybod am yr atgyfeiriad, gan gynnwys ffynhonnell a natur y pryderon

Gall ymarferydd sy'n ymwybodol o drawma neu aelod o'r tîm gweinyddol gysylltu â'r sawl sy'n cyfeirio i gael rhagor o wybodaeth os oes angen

Oherwydd cyfrinachedd, fel arfer ni roddir diweddariadau ar y camau a gymerwyd heb gydsyniad y myfyriwr

Os yw'r atgyfeiriad yn ymwneud ag aelod o staff a enwir, ymgynghorir ag Adnoddau Dynol fel y bo'n briodol